Ddiwedd Tachwedd treuliodd nifer o'r plant hynaf wythnos yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog a chael amser hynod o ddiddorol a difyr. yn ystod yr un wythnos aeth tîm o ddosbarth 4 i fwynhau cystadleuaeth cwis yr Urdd yn Ysgol Rhydypennau. Cafwyd tipyn o hwyl a chrafu pen ambell dro. Diolch yn fawr i Ysgol Rhydypennau am y creision a'r ddiod oren ar ddiwedd y dydd.